CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Tel: 01758 730357

5ed Mai, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor NOS LUN NESAF, 10fed MAI, 2021, am 7.30 y.h. drwy gyfrwng 'zoom.'

## RHAGLEN

1. I GYFLWYNO YMDDIHEURIADAU

2. I ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2021/22

3. I ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2021/22 (o Ward Botwnnog)

4. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg GORFFENNAF, 2020

   Copi'n amgaeedig. "A"

5. I GYFLWYNO ADRODDIADAU GAN:

   (a) Y Cadeirydd am y flwyddyn 2020/21 – Y Cynghorydd Elin Hughes.
   Copi'n amgaeedig. "B"
   (b) Y Clarc
   (c) Aelod Cyngor Gwynedd – Y Cynghorydd Gareth Williams
   Copi'n amgaeedig "C"
   (ch) Y Cynghorydd Gwenan Griffith – cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf

6. MANTOLEN ARIANNOL Y CYNGOR A'R FYNWENT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31ain MAWRTH, 2021

   Copi'n amgaeedig. "CH"

7. CYNRYCHIOLWYR

   I ethol cynrychiolwyr i wasanaethau ar y canlynol – rhestrir yr aelodau presennol:

**Is-bwyllgor y Fynwent:** Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd â Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd.
(Nodyn - gan fod Y Cynghorydd Glyn Roberts yn aelod a Chadeirydd y Cyngor yn ystod 2019/20 etholwyd yr Is-Gadeiryddes, Y Cynghorydd Elin Hughes i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor hefyd).
**Is-bwyllgor Bwyllgor Cynllunio:** Cadeirydd y Cyngor ynghyd âg aelodau'r Ward lle bo'r cais.
**Un Llais Cymru** - Y Cynghorwyr David Brunelli ag Elin Hughes.

**Yn gywir,**

Gwenda Roberts

**Clarc**

## AELODAETH Y CYNGOR
## Y CYNGHORWYR

David Brunelli
Gwenan Griffith
Glyn Roberts
Glenys Williams
Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Michael Strain
Siôn Williams
Elin Hughes
Ifor Owen
Carys E. Williams

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

5ed Mai, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 10fed Mai, 2021** yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

**RHAGLEN**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed EBRILL, 2021.**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod materion yn codi:
(a) Eitem 108 Materion Ffyrdd a Llwybrau – cymal gwter ger mynedfa Mynwent Llandegwnning
Adroddiad Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones a Glyn Roberts.
(b) Eitem 108 Materion Ffyrdd a Llwybrau – camfeydd
Derbyniwyd gwybodaeth gan yr Adran Llwybrau, Cyngor Gwynedd, ynglyn a phwy sy'n gyfrifol am gamfeydd ac hefyd fap o'r llwybrau a'r categoriau.
Copi'n amgaeedig. "B"
(c) Eitem 112 – Cyfarfod wyneb yn wyneb – cyfarfodydd y Cyngor
Ymateb Mel ab Owain o Un Llais Cymru.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

(a) Cais C21/0369/32/LL – ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd i addasu adeiladau allanol yn ddau uned gwyliau – Neigwl Ganol, Bownnog.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.
Un Llais Cymru £159.00

(Nodyn – amgaeaf gopi o lythyr gan Un Llais Cymru yn nodi beth yw eu rôl. "C"
Maent wedi anfon llyfryn yn rhoddi arweiniad i'w gwasanaeth ac mae croeso i unrhyw un gael copi – rhowch wybod os yr ydych yn dymuno derbyn copi.

8. **APEL I ARCHUB CAPEL BETHANIA, PISTYLL**
Llythyr ar ran Cyfeillion Capel Bethania.
Copi'n amgaeedig. "CH"
Hefyd yn amgaeedig mae cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru ar y cais. "D"

9. **RHEOLAU SEFYDLOG, ARIANNOL AG ASESIAD RISG**
A oes angen adolygu'r uchod? Mae copiau ar wefan y Cyngor www.cyngorbotwnnog
Os yr ydych eisiau cael golwg arnynt ymlaen llaw.

Yn gywir,

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| David Brunelli | Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffith |
| Dylan Parry Jones | Ifor Owen | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Carys E. Williams | Glenys Williams | Siôn Williams | |